



Mewnfudo a Thai yng Nghymru

Prif bwyntiau

- Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am fewnfudwyr sy'n byw yng Nghymru ym meysydd **tai, iechyd, addysg a gwasanaeth cymdeithasol** yn ogystal â'i hagenda **cydlyniant cymdeithasol**.
- Mae **tai yn faes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru** sy'n golygu mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisiau yn y maes hwn.
- **Amcangyfrifir bod 1.35 miliwn o gartrefi yng Nghymru** a bod **tua 70% ohonynt yn berchen i'r bobl sy'n byw ynddynt**. Cartrefi a rentir gan awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai (16%) a chartrefi a rentir gan landlordiaid preifat (14%) yw'r gweddill.
- Mae sawl her ym maes tai yng Nghymru a'r ffaith fod **pobl yn byw'n hirach** yw'r un fwyaf. Erbyn 2026, disgwylir y bydd dros chwarter y boblogaeth dros 65 oed ac un o bob ugain dros 85 oed.
- Mae patrymau newydd o ran mewnfudo ryngwladol i Gymru wedi cyd-fynd â newidiadau pwysig yn y farchnad dai. Mae'r twf **yn nifer y cartrefi** yn sgîl pobl yn byw'n hirach a rhagor o bobl yn byw ar eu pen eu hunain neu mewn cartrefi llai ymhlith y newidiadau amlycaf.
- **Mae'r tai sydd ar gael i fewnfudwyr rhyngwladol yng Nghymru** yn dibynnu ar eu statws mewnfudo a'u hawliau cyfreithiol cysylltiedig, yn ogystal â'u hadnoddau a chyfleoedd ariannol.
- Yn ôl ymchwil am ogledd a gorllewin Cymru, **mewnfudo o ardaloedd cefnog Lerpwl, Manceinion, Birmingham a de-ddwyrain Lloegr** sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar dai yn hytrach na mewnfudo rhyngwladol.
- **Prin yw'r tai cymdeithasol** sydd wedi bod ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o fewnfudwyr sydd wedi dod i'r Deyrnas Unedig dros y blynyddoedd diwethaf, ac ymfudwyr diweddar oedd **llai na 2%** o'r rhai oedd yn byw mewn tai cymdeithasol yn 2009.
- Mewnfudo cynyddol sydd wedi cael yr **effaith fwyaf ar y sector rhentu preifat**. Mae rhywfaint o ymchwil yn awgrymu bod 60-90% o fewnfudwyr newydd yn byw mewn llety a rentir yn breifat, ond mae mewnfudwyr sydd wedi bod yma ers peth amser yn tueddu i gael llety tebyg i'r rhai sydd wedi'u geni yn y Deyrnas Unedig h.y. maent yn berchen ar eu cartrefi.
- Ceir tystiolaeth fod mewnfudwyr yng Nghymru sy'n rhentu'n breifat neu'n byw mewn llety drwy eu cyflogwyr (llety cysylltiedig), yn byw mewn **tai gorlawn** ac mewn **cyflwr gwael**.
- Mae tua un o bob tri (30%) o fewnfudwyr sy'n gweithio wedi bod yn **ddigartref** ers byw yng Nghymru. Gall y rhain fynd yn ddigartref yn haws oherwydd arferion gwaith sy'n cymryd mantais, tai o ansawdd gwael neu am nad ydynt yn cael hawlio arian cyhoeddus megis budd-daliadau tai a/neu dai cymdeithasol.
- Ceir tystiolaeth fod ffoaduriaid sydd wedi cael yr hawl i aros yng Nghymru yn cael **anawsterau wrth gael gafaél ar lety priodol** oherwydd y nifer cymharol brin o dai cymdeithasol a llety rhent preifat fforddiadwy.

Cynhyrchwyd gan yr Athro Heaven Crawley, Canolfan Ymchwil i Bolisiau Mewnfudo ym Mhrifysgol Abertawe ar ran Partneriaeth Mewnfudo Cymru

Cyhoeddwyd ym mis Mai 2014

www.wmp.org.uk

Ffôn: 029 2090 9550

Ffacs: 029 2090 9510

E-bost Anne.Hubbard@wmp.org.uk

Cyd-destun polisïau

Er nad yw pwerau ym meysydd ceisio lloches a mewnfudo wedi'u datganoli, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am fewnfudwyr sy'n byw yng Nghymru o dan ei swyddogaethau tai, iechyd, addysg a gwasanaeth cymdeithasol yn ogystal â thrwy ei hagenda am gydlyniant cymdeithasol. Yn sgîl hynny, **mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol o ran cynnwys mewnfudwyr mewn cymdeithasau yng Nghymru.**

Paratwir polisïau parthed mewnfudwyr yng Nghymru yng nghyd-destun agenda strategol Llywodraeth Cymru h.y. y Rhaglen Lywodraethu (2011) yn benodol ac o fewn fframwaith deddfwriaeth y Deyrnas Unedig, Ewropeaidd a rhyngwladol.

Mae'r **Rhaglen Lywodraethu** yn amlinellu'r camau penodol y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i 'greu cymdeithas lle nad oes gwahaniaethu, aflonyddu nac erlid, gyda chymunedau cydlynol a chynhwysol' (Llywodraeth Cymru 2011a). Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflawni hyn drwy leihau anghydraddoldeb ym meysydd addysg a sgiliau, iechyd, tai a deilliannau ym myd gwaith i bobl sydd â nodweddion a ddiogelir (gan gynnwys hil), gwella bodlonrwydd ar wasanaethau cymdeithasol, a lleihau nifer yr achosion o droseddau casineb.

Daeth **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** (Deddf Cydraddoldeb 2010), neu'r 'ddyletswydd gyffredinol', i rym ym mis Ebrill 2011. Ei nod yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut gallant gyfrannu at greu cymdeithas decach drwy eu gwaith bob dydd drwy geisio cael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, gwella cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da.

Er mwyn i gyrff cyhoeddus gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn well, Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i gyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Cymeradwyodd y Cynulliad y rheoliadau a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yn llawer mwy pellgyrhaeddol yng Nghymru nag ydynt yn Lloegr. Maent yn gosod dyletswyddau ar y sector cyhoeddus ynghylch ymgysylltu, asesiadau o effaith ar gydraddoldeb, gwahaniaethau mewn cyflog, adolygu a chydaddoldeb a gwybodaeth am gyflogaeth.

Cyhoeddodd awdurdodau cyhoeddus Cymru eu hamcanion ym maes cydraddoldeb a'u Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ym mis Ebrill 2012 sy'n amlinellu sut mae'r sector cyhoeddus yn mynd ati i gyflawni'r ddyletswydd cydraddoldeb.

Tai yng Nghymru

Mae tai yn **faes sydd wedi'i ddatganoli**. Felly, Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu faint o arian i'w ddyrannu i dai (a gwahanol elfennau o dai). Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn gyfrifol am bennu, blaenoriaethau yn y maes, paratoi strategaethau a pholisïau gwladol, rhoi arweiniad a chymeradwyo is-ddeddfwriaeth. Er bod y prif bwerau deddfu yn San Steffan o hyd, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cael mwy o ddylanwad yn y deddfwriaeth sylfaenol er mwyn cymeradwyo is-ddeddfwriaeth sy'n bodloni anghenion Cymru (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2009).

Amcangyfrifir bod **1.35 miliwn o gartrefi yng Nghymru** a bod tua 70% ohonynt yn berchen i'r bobl sy'n byw ynddynt. Cartrefi a rentir gan awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai (16%) a chartrefi a rentir gan landlordiaid preifat (14%) yw'r gweddill. Mae nifer y cartrefi a rentir gan awdurdodau lleol wedi gostwng yn sylweddol dros y deng mlynedd ar hugain ddiwethaf wrth i bobl fanteisio ar y cyfle i brynu eu cartrefi, ac wrth i denantiaid benderfynu rhentu gan gymdeithasau tai newydd. Mae'r **sector**

Amcangyfrifir bod 1.35 miliwn o gartrefi yng Nghymru a bod tua 70% ohonynt yn berchen i'r bobl sy'n byw ynddynt. Cartrefi a rentir gan awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai neu landlordiaid preifat yw'r gweddill.

rhentu preifat yn rhan gynyddol bwysig ym maes tai yn gyffredinol yng Nghymru. (Llywodraeth Cymru 2012).

Ym mis Ebrill 2010, lansiodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol ym maes tai *Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010a), sy'n amlinellu'r heriau o ran bodloni anghenion tai yng Nghymru. Mae'r Strategaeth yn amlygu nifer o heriau ym maes tai yng Nghymru:

- Mae'r **galw am dai** yn parhau i fod yn uwch na'r hyn sydd ar gael. Mae angen tai newydd ac ailddefnyddio eiddo gwag i fodloni'r galw hwn;
- Mae'r **wasgfa gredyd** wedi cynyddu'r galw am dai fforddiadwy;
- Mae'r **boblogaeth sy'n heneiddio** yn effeithio'n sylweddol ar ddyluniad tai a'r cymorth sydd ar gael i helpu pobl i fyw'n annibynnol cyn hired â phosibl;
- Mae **oed ac ansawdd tai cymdeithasol ar hyn o bryd** yn golygu bod angen eu gwella'n sylweddol, yn enwedig o ran effeithlonrwydd ynni; ac
- Mae **galw cynyddol am dai a gwasanaethau cymorth yn ymwneud â thai**, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â **digartrefedd**.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, y ffaith fod **pobl yn byw'n hirach** yw'r newid pwysicaf yn y boblogaeth sy'n effeithio ar y galw am dai yng Nghymru. Erbyn 2026, disgwylir y bydd dros chwarter y boblogaeth dros 65 oed ac un o bob ugain o bobl dros 85 oed (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010a).

Ar hyn o bryd, mae Mesur Tai Cymru yn destun craffu yn y Cynulliad a bydd y Frenhines yn rhoi sêl ei bendith arno yn haf 2014, yn ôl pob tebyg. Nod y mesur yw gwella safonau tai, fforddiadwyedd a chymunedau a helpu i osgoi'r anawsterau a'r diffyg cyfleoedd y bydd pobl sy'n agored i newid yn eu profi yn aml.

Dyma brif nodweddion y mesur:

- cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol i landlordiaid tai preifat sydd ar osod yn ogystal ag asiantau gosod a rheoli tai;
- diwygio'r gyfraith ynglŷn â digartrefedd gan roi dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a gadael iddyn nhw ddefnyddio tai addas yn y sector preifat;
- gofyn i awdurdodau lleol gynnig safleoedd i sipsiwn a phobl grwydrol lle bo angen;
- cyflwyno safonau i awdurdodau lleol ynglŷn â rhenti, taliadau am wasanaethau ac ansawdd tai;
- diwygio Trefn Cyfrifon Cyllid y Tai;
- rhoi hawl i bob cyngor lleol godi treth yn uwch na'i gyfradd safonol ar gartrefi sy'n wag ers dros flwyddyn;
- helpu cymdeithasau tai cydweithredol i roi tai ar gael.

Bydd y cynigion ar gyfer gwella safonau tai preifat sydd ar osod ac atal digartrefedd yn arbennig o bwysig i fewnfudwyr sy'n chwilio am gartrefi yng Nghymru.

Mae'r **tai sydd ar gael i fewnfudwyr rhyngwladol yng Nghymru** yn dibynnu ar eu statws mewnfudo a'u hawliau cyfreithiol cysylltiedig, yn ogystal â'u hadnoddau a chyfleoedd ariannol. Prin yw'r tai cymdeithasol sydd ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o fewnfudwyr, felly maent yn dibynnu ar gael llety yn y sector rhentu preifat (Shelter 2008). Dim ond rhai mewnudwyr diweddar sy'n cael hawlio tai cymdeithasol, ond mae eraill yn gallu eu hawlio hefyd wedi peth amser a phan fo newid yn eu hamgylchiadau. Mae'r rheolau yn gymhleth ac yn wahanol ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Cewch wybodaeth fanwl am y tai y gellir eu hawlio ar wefan y Rhwydwaith Hawliau Tai yn www.housing-rights.info, ac mae'n cael ei diweddarau'n rheolaidd. Yn gyffredinol iawn:

- Mae **gwladolion o'r UE** yn cael cyflwyno cais am dai ar yr un sail â gwladolion y Deyrnas Unedig cyn belled eu bod yn gweithio;
- Nid yw **ceiswyr lloches** yn cael hawlio tai cymdeithasol. Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am roi tai i geiswyr lloches. Maent yn cael llety yn y sector rhentu preifat a gallent gael eu gwasgau ar hap ledled y wlad;
- Mae **pobl sydd â statws ffoaduriaid, diogelwch dyngarol ac absenoldeb dewisol** yn cael cyflwyno cais am dai ar yr un sail â gwladolion y Deyrnas Unedig;
- Yn gyffredinol, nid yw **pobl o du allan i'r UE** yn gallu hawlio arian cyhoeddus. Mae mewnudwyr o du allan i Ardal Economaidd Ewrop sy'n cyrraedd am resymau teuluol neu fewnfudo economaidd yn cael hawlio tai cymdeithasol nes eu bod yn Ddinasyddion Prydeinig.

Y cysylltiad rhwng mewnfudo a thai

Mae'r cysylltiad rhwng mewnfudo a thai wedi cael cryn sylw ymhlith y cyhoedd a'r cyfryngau dros y blynyddoedd diwethaf, gyda honiadau ar led bod mewnudwyr yn cael blaenoriaeth annheg wrth hawlio tai cymdeithasol (gweler isod).

Mae'r anawsterau a'r heriau parthed tai a mewnfudo wedi cynyddu'n sylweddol, yn enwedig o ystyried amrywioldeb cynyddol mewnudwyr newydd a'r nifer cynyddol yn dod o wledydd A8 (gweler y papur am **Fewnfudwyr Rhyngwladol**). Fodd bynnag, mae **patrymau newidiol o ran mewnfudo rhyngwladol i'r Deyrnas Unedig a Chymru wedi digwydd ar yr un pryd â newidiadau mawr yn y farchnad dai hefyd**. Y twf yn nifer y cartrefi yw un o'r ffactorau sy'n effeithio ar y galw am dai. Pobl yn byw'n hirach, mwy o bobl yn byw ar eu pen eu hunain neu mewn cartrefi llai, yn ogystal â mewnfudo net a chyfraddau geni uwch mewn rhai ardaloedd sy'n gyfrifol am y twf hwn (Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol 2009). Ceir peth tystiolaeth i awgrymu y byddai prinder tai yn y Deyrnas Unedig hyd yn oed pe byddai'r un niferoedd yn mewnfudo ac yn allfudo (Yr Arsyllfa Fewnfudo 2013)

Mae perthynas gymhleth rhwng tai a mewnfudo. Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar y galw am dai yng Nghymru (fel mewn mannau eraill) yn cynnwys newidiadau mewn:

- Poblogaeth leol a chenedlaethol;
- Patrymau poblogaeth, megis pobl yn byw'n hirach;
- Newidiadau mwy cyffredinol mewn cymdeithasol;

- Pobl yn symud i mewn ac allan o ardaloedd;
- Patrymau gweithio a byw;
- Dewisiadau pobl mewn bywyd;
- Yr economi, gan gynnwys cyfraddau llog a'r morgeisi sydd ar gael.

Bydd yr effaith yn dibynnu hefyd ar nodweddion y mewnfudwyr o dan sylw (e.e. oed, lefel incwm, math o fisa, amser yn y Deyrnas Unedig, beth sydd orau ganddynt (e.e. maint y cartref, rhentu o gymharu â phrynu, lefel ofynnol o ran ansawdd y llety) a'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cael tai cymdeithasol. Felly, **mae gwahanol fathau o fewnfudwyr, gyda gwahanol hawliau, cyfleoedd ac adnoddau, yn debygol o gael profiadau tra gwahanol o'r system dai a'u heffaith arni** (Yr Arsyllfa Fewnfudo 2013).

O ran effaith mewnfudo ar y sector tai, **gellir disgwyl i hyn amrywio hefyd ar draws ardaloedd lleol sydd â marchnadoedd tai gwahanol a'r graddau mae pobl yn symud i mewn ac allan o'r ardal.** Hwyrach fod cysylltiadau pwysig rhwng sector y perchennfeddianwyr a'r sector rhentu preifat. Er enghraifft, gall y galw cynyddol am lety a rentir annog fwy o fuddsoddwyr i brynu er mwyn gosod gan gynyddu prisiadau tai yn sgîl hynny.

Mewn rhai ardaloedd, mae mewnfudwyr newydd wedi llenwi'r farchnad leol. Mae hyn yn aml yn digwydd pan mae preswylwyr eraill yn symud i ardaloedd mwy deniadol. Er enghraifft, yn Sheffield, mae gweithwyr o Wlad Pwyl yn tueddu i symud i ardaloedd lle'r oedd myfyrwyr yn arfer byw. Maent yn aml yn byw mewn tai aml-breswyl yn sgîl y cynnydd mewn llety sydd wedi'u hadeiladu ar gyfer myfyrwyr yn benodol. Mewn ardaloedd lle mae galw mawr am dai, rhaid i rai mewnfudwyr gystadlu gyda gweithwyr eraill ar incwm isel sydd ar waelod y sector rhentu preifat (Shelter 2008).

Ceir peth tystiolaeth am y berthynas rhwng mewnfudo a **digartrefedd yng Nghymru.** Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymchwil ynglŷn ag effaith mewnfudo diweddar ar sut mae awdurdodau lleol yn dyrannu tai a chymau a gymerir o dan ddeddfwriaeth ddigartrefedd. Fe'i comisynwyd mewn ymateb i bryderon lleol, rhanbarthol a chenedlaethol am effaith teuluoedd o fewnfudwyr ar y galw am dai mewn rhai ardaloedd (yn enwedig ardaloedd arfordirol a gwledig) yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009).

Canolbwyntiodd yr ymchwil ar chwe awdurdod arfordirol yn y gogledd a'r gorllewin: Ynys Môn, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Gwynedd. Daeth i'r amlwg yn yr ymchwil mai prin oedd effaith mewnfudwyr rhyngwladol ar y farchnad

dai ac nad oedd unrhyw dystiolaeth bod mewnfudwyr o du allan i'r Deyrnas Unedig yn cael tai cymdeithasol yn yr ardaloedd hyn yng Nghymru.

Dangosodd yr ymchwil **fod y mwyafrif llethol o deuluoedd oedd wedi symud i'r rhannau hyn o Gymru wedi dod o ardaloedd cefnog Lerpwl, Manceinion, Birmingham a de-ddwyrain Lloegr** i symud i gartrefi i fod yn berchen ar dai cymharol ratach mewn ardaloedd gwledig. Bydd y grwpiau hyn yn cael effaith ar dai cymdeithasol drwy gyfrannu at godi prisiau llai a'u gwneud y tu hwnt i'r hyn y gall teuluoedd lleol eu fforddio mewn ardaloedd 'cyflog isel' yn gyffredinol. (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009).

Mewnfudo a thai cymdeithasol

Mae cryn dipyn o'r drafodaeth am dai wedi sôn am hawl y mewnfudwyr i gael tai cymdeithasol. Mae'r rheolau o ran pa dramorwyr sy'n cael hawlio cymorth ym maes tai yn hynod gymhleth (Shelter 2008; Perry 2012). **Prin yw'r tai cymdeithasol sydd wedi bod ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o fewnfudwyr sydd wedi dod i'r Deyrnas Unedig dros y blynyddoedd**

Hwyrach mai'r ffaith mai cyn-dai cymdeithasol yw rhai o'r tai rhent preifat lle mae mewnfudwyr yn byw sy'n gyfrifol am yr argraff fod mewnfudwyr yn disodli'r rhai o'r Deyrnas Unedig sy'n cyflwyno cais am dai.

diwethaf (Rutter and Lattore 2009; AAPG 2013)

Dyrennir tai cymdeithasol yn ôl angen. Fodd bynnag, rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i allu cael eu hystyried. Mae'r bobl hynny o dramor a allai fod yn gymwys yn parhau i orfod dangos eu bod yn cael hawlio cymorth yn unol â chynllun dyrannu tai'r awdurdod lleol, neu fodloni'r meini prawf sy'n golygu bod dyletswydd statudol i helpu teuluoedd digartref.

Mae'r rhai sy'n cyflwyno cais am dai yn cael eu hystyried ar yr un sail â gwladolion y Deyrnas Unedig. Yn ôl adolygiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chymdeithas Llywodraeth Leol am dai cymdeithasol, nid oedd unrhyw dystiolaeth o ffafrio tramorwyr dros ddinasyddion y Deyrnas Unedig wrth ddyrannu tai (Shelter 2008).

Mewnfudwyr newydd i'r Deyrnas Unedig yw **llai na 2% o'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol.** Mae tua 90% o'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol wedi'u geni yn y Deyrnas Unedig. Ffoduriaid sydd wedi cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig yw'r rhan fwyaf o'r mewnfudwyr newydd sydd mewn llety cymdeithasol. Nifer fechan ohonynt sydd o gymharu â chyfanswm y tenantiaid cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, amcangyfrifir bod 19,200 o unigolion a anwyd yn Afghanistan yn denantiaid cymdeithasol yn nhrydydd chwarter 2007, ymhlith y 10,337,300 o denantiaid cymdeithasol oedd yn y Deyrnas Unedig i

gyd (Rutter a Lattore 2009).

Yn y bôn, y ffaith **nad yw nifer y tai cymdeithasol yn bodloni galw'r boblogaeth** yw hanfod llawer o'r pryderon ymhlith y cyhoedd am effaith mewnfudo. Nid yw nifer y tai sy'n cael eu hadeiladu'n cyd-fynd â'r galw am dai. Fel y nodwyd uchod, y twf yn nifer y cartrefi yw un o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y galw am dai. Ceir camargraffiadau hefyd parthed sut mae tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu. Mewn sawl rhan o'r Deyrnas Unedig, mae gwerthu tai cymdeithasol a'i ddefnyddio fel llety a rentir yn breifat wedi hynny, wedi llywio'r camargraffiadau am ddyrannu tai cymdeithasol. Hwyrach fod trigolion lleol yn credu mai'r cyngor sy'n berchen arno o hyd, er ei fod bellach yn y sector preifat (Rutter a Lattores 2009).

Yn Wrecsam, er enghraifft, daeth i'r amlwg mewn ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2010b) nad oedd rhai pobl leol yn gwybod am hawliau gweithwyr mewnfudol o ran tai cymdeithasol. Dywedodd rhai pobl o'r gymuned leol fod y cynnydd mewn gweithwyr mewnfudol yn rhoi pwysau ar wasanaethau tai, ond roedd staff yr awdurdod lleol yn gwrthdweud hynny mewn cyfweiliadau. Dim ond 7 o dai'r awdurdod lleol oedd wedi'u dyrannu i Bwyliaid yn 2007, o gymharu â 4 i bobl wyn o Bortiwgal a 721 o bobl oedd yn disgrifio'u hunain fel Gwyn Prydeinig.

Effaith ar y farchnad rhentu breifat

Yn ôl tystiolaeth, **mae mewnfudo cynyddol wedi effeithio ar y sector rhentu preifat yn bennaf.**

Mae mewnfudwyr yn y sector rhentu preifat yn bennaf yn ystod eu tair blynedd gyntaf yn y Deyrnas Unedig. Mae canfyddiadau'r ymchwil yn amrywio. Yn ôl ymchwil gan IPPR (2008), roedd 60% o'r mewnfudwyr a gyrhaeddodd y Deyrnas Unedig rhwng 2003 a 2008 yn byw mewn tai rhentu preifat. Roedd adroddiad ar gyfer y Fforwm Effeithiau Mewnfudo yn amcangyfrif bod tua 90% o'r bobl a gyrhaeddodd y Deyrnas

Yn ôl adolygiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chymdeithas Llywodraeth Leol am dai cymdeithasol, nid oedd unrhyw dystiolaeth o ffafrio tramorwyr dros ddinasyddion y Deyrnas Unedig wrth ddyrannu tai. Yn 2009, mewnfudwyr diweddar oedd llai na 2% o'r rhai oedd yn byw mewn tai cymdeithasol.

Unedig a gyrhaeddodd yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn byw yn y sector rhentu preifat ar hyn o bryd. Mae tystiolaeth gan yr Arsyllfa Fewnfudo yn dangos bod mewnfudwyr diweddar 'dair gwaith yn fwy tebygol o fyw yn y sector preifat (36%) o gymharu â rhywun a anwyd yn y Deyrnas Unedig (12%), ond mae mewnfudwyr sydd wedi bod yma ers tro ' yn tueddu i gael llety tebyg i bobl a anwyd yn y DU' (AAPG 2013).

Er na all y rhan fwyaf o fewnfudwyr diweddar o du allan i Ardal Economaidd Ewrop hawlio budd-dal tai cymdeithasol, **mae'r mewnfudwyr nad ydynt yn gallu hawlio yn parhau i allu cynyddu'r galw am dai cymdeithasol drwy gynyddu prosesau a rhent a disodli'r rhai sy'n cael hawlio o'r sector rhentu preifat** (Yr Arsyllfa Fewnfudo 2013). Mae maint yr effaith yn dibynnu ar sut mae cyflenwad y tai sydd ar gael yn ymateb i'r newidiadau mewn galw.

Yn olaf, mae peth pryder am effaith mewnfudo ar **brisiau tai** ond nid yw'r dystiolaeth o hyn yn bendant gan fod amrywiaeth eang o ffactorau o dan sylw.

Daethpwyd i'r amlwg mewn adroddiad, gan dîm o ymchwilwyr yn Ysgol Economeg Llundain ar gyfer y Pwyllgor Cyngori ar Fewnfudo, mai prin iawn yw effaith y mewnfudwyr yn Haen 1 a 2 (tra medrus) ar y farchnad dai a'r gallu i brynu tai (Whitehead et al., 2011). Daw'r awdurdod i'r casgliad fod effaith y cynnydd cyffredinol mewn mewnfudwyr Haen 2 ar brisiau tai dros gyfnod o bum mlynedd yn debygol o fod ymhell o dan 1%. Gallai olygu bod rhai eiddo'n cael eu trosglwyddo i'r sector rhentu, ond **prin yw'r effaith ar gyfanswm y cyflenwad newydd yn ôl pob tebyg.**

Profiadau mewnfudwyr o dai a digartrefedd

Yn ôl ymchwil gan Robinson et al (2007), statws mewnfudo, hawliau cyfreithiol a chyfleoedd cysylltiedig sy'n pennu beth yw profiadau mewnfudwyr newydd ar ôl cyrraedd. Mae hyn yn arwain at wahaniaethau clir yn sefyllfaoedd tai'r gwahanol grwpiau. Er enghraifft, mae ceiswyr lloches yn dibynnu, yn y lle cyntaf, ar y Gwasanaeth Cynorthwyo Ffoaduriaid Cenedlaethol i gael llety a symud i dai cymdeithasol neu lety yn y sector preifat wedi hynny os ydynt yn cael caniatâd i aros. I'r gwrthwyneb i hynny, mae'r ffaith mai prin yw'r budd-daliadau lles sydd ar gael i weithwyr mewnfudol yn golygu eu bod yn dibynnu ar y sector rhentu preifat i gael rhywle i fyw. Ceir tystiolaeth bod **rhai gweithwyr mewnfudol yn cael trafferth canfod llety fforddiadwy.**

Mae'r rhan fwyaf o fewnfudwyr newydd yn symud i lety dros dro ar ôl cyrraedd y Deyrnas Unedig am y tro cyntaf. Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol, mae llawer o'r gweithwyr mewnfudol sy'n rhentu'n breifat neu sy'n byw mewn llety a ddarparwyd gan eu cyflogwyr (llety cysylltiedig), yn byw mewn **tai gorlawn** sydd mewn cyflwr gwael ac yn aml mewn perygl o fynd ar dân (Shelter 2008; Shelter Cymru 2010).

Mewn astudiaeth arall, gwelwyd bod **cyflwr tai gwael a thai gorlawn** yn brofiadau cyffredin i fewnfudwyr. Er mai landlordiaid oedd yn gyfrifol am y llety gorlawn mewn rhai achosion, y mewnfudwyr oedd wedi dewis is-osod mewn achosion eraill i leihau eu costau tai (Spencer et al. 2007).

Yn ôl ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2010b), mae gweithwyr mewnfudol yng Nghymru yn tueddu i fyw mewn llety rhent sydd naill ai'n gysylltiedig â'u gwaith neu'n cael ei rentu'n breifat drwy asiantaeth reoli neu landlord. Ychydig iawn sydd wedi prynu eu tai eu hunain, ac ychydig sydd mewn tai cymdeithasol neu'n cael budd-dal tai.

Yr enghraifft fwyaf gyffredin o lety cysylltiedig yn **Sir Gaerfyrddin** yw lle mae mewnfudwyr yn gweithio drwy asiantaeth gyflogi sy'n berchen ac yn rhentu amrywiaeth o eiddo i'w gweithwyr mewnfudol, ac yn tynnu'r rhent o'u cyflogau.

Mae traean o weithwyr mewnfudol wedi bod yn ddiagrtref yng Nghymru. Gallant fod mewn perygl o gael eu gwneud yn ddigartref oherwydd arferion gwaith sy'n manteisio arnynt a'r ffaith nad ydynt yn cael hawlio arian cyhoeddus fel budd-daliadau tai a/neu dai cymdeithasol.

Yng **Nghasnewydd**, mae mewnfudwyr yn dod o hyd i lety mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy eu gwaith (llety cysylltiedig); asiantaethau gosod, a rhwydweithiau anffurfiol (ffrindiau/teulu). Pan mae gweithwyr mewnfudol yn cyrraedd yr ardal am y tro cyntaf, maent yn tueddu i aros gyda ffrindiau neu berthnasau nes eu bod wedi dod o hyd i'w llety eu hunain. Mae tai rhent rhad a thai aml-breswyl yn nodweddiadol o lety gweithwyr mewnfudol.

Mae asiantaethau eraill wedi sôn bod gweithwyr mewnfudol yn byw mewn llety arbennig o wael ac yn byw mewn lleoedd gorlawn. Er enghraifft, mewn un eiddo, sydd bellach wedi cau, roedd 28 o bobl o'r Weriniaeth Siec yn byw mewn fflat dwy ystafell wely (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010b).

Mae ymchwil gan Shelter Cymru (2010) wedi tynnu sylw at amrywiaeth eang o brofiadau ym maes tai ymhlith mewnfudwyr o ganol a dwyrain Ewrop sy'n gweithio ac yn byw yng Nghymru. Roedd y rhan fwyaf a gymerodd ran yn yr ymchwil wedi cael profiad o dai gwael neu ansicrwydd ar ôl cyrraedd Cymru am y tro cyntaf. Roedd llety cysylltiedig hefyd yn broblem i gyfran fach. Dros amser, wrth iddynt ymsefydlu, maent yn tueddu i symud i lety o ansawdd gwell. Fodd bynnag, mae gweithwyr mewnfudol yn parhau i oddef tai sydd o ansawdd gwael yn eu barn nhw. Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu hwyrach bod rhwystrau i dai o ansawdd da hyd yn oed os yw'r gweithwyr mewnfudol wedi byw yng Nghymru ers cryn amser.

Mae tua thraean (30%) o'r gweithwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil wedi cael profiad o **ddigartrefedd** ers symud i Gymru.

Mae'r ffactorau cyffredinol sy'n gysylltiedig â digartrefedd ymhlith gweithwyr yn debyg i'r rhai y

mae'r boblogaeth gyffredinol yn eu hwynebu. Maent yn gyfuniad o ffactorau strwythurol ac unigol gan gynnwys diweithdra, tlodi, perthnasoedd yn chwalu, neu wrthdaro o fewn teuluoedd. Fodd bynnag, ceir dystiolaeth yn yr ymchwil bod arferion rhai cyflogwyr neu asiantaethau gwaith, yn enwedig o ran llety cysylltiedig, yn gallu **gwneud gweithwyr mewnfudol yn fwy tebygol o gael eu gwneud yn ddigartref neu orfod byw mewn tai gwael**.

Mae rhai mewnfudwyr wedi bod yn ddigartref o ganlyniad i golli llety oedd yn gysylltiedig â gwaith, ac maent hefyd yn agored i arferion gwaith sy'n manteisio arnynt, yn ogystal â thai gwael. Gall y ffaith nad oes modd iddynt hawlio arian cyhoeddus megis budd-dal tai a/neu dai cymdeithasol waethygu'r broblem hon.

Profiadau ffoaduriaid o dai

Mae cynnig tai yn cael ei hystyried yn gyffredinol fel conglaen yn y broses o integreiddio ffoaduriaid yn llwyddiannus. Nid yw ceiswyr lloches sy'n cael eu dyrannu i Gymru yn cael unrhyw ddewis o ran y llety a roddir iddynt, gan mai darparwyr llety yn y sector preifat, o dan gytundeb gyda'r Swyddfa Gartref (hen Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig), sy'n penderfynu.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr llety roi lefel sylfaenol o gefnogaeth drwy gydol y broses o geisio lloches. Mae pobl sy'n cael statws ffoaduriaid, ac yn cael aros dros dro neu'n barhaus, yn cael cyflwyno cais i'w hawdurdod lleol am dai cymdeithasol, neu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n sefydliadau tai annibynnol. Fodd bynnag, yng Nghymru, fel mewn mannau eraill, mae ffoaduriaid sydd wedi cael statws yn cael **anawsterau penodol wrth ddod o hyd i lety priodol** (Crawley a Crimes 2009). Mae'r prinder cymharol o dai cymdeithasol a llety rhentu preifat fforddiadwy yn gysylltiedig i raddau helaeth â'r anawsterau hyn.

Yn ôl arolwg o ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009, roedd mwyafrif llethol (89.4%) o ffoaduriaid yn byw mewn llety a rentir, gyda'r cyngor neu'r awdurdod lleol yn landlord ar ddau-draean ohonynt (Crawley a Crimes 2009). Ychydig iawn o ffoaduriaid sy'n berchen ar eu heiddo eu hunain (4.1%). Nid oes gan rai ffoaduriaid eu cartrefi eu hunain, felly maent yn aros gyda theulu neu ffrindiau neu'n byw mewn llety dros dro neu hostel. Mae'r gweddill fwy neu lai'n ddigartref. Gall y ffoaduriaid sy'n symud fynd yn ddigartref yn sgîl y gofyniad bod ganddynt 'gysylltiad lleol' â'r ardal lle maent yn byw er mwyn gallu hawlio gwasanaethau digartrefedd. Hwyrach nad yw ffoaduriaid unigol yn cael hawlio tai cymdeithasol gan nad oes statws 'angen blaenoriaeth' arnynt. Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn ag agwedd ac ymddygiad preswylwyr eraill tuag atynt a'u plant.

Mewn astudiaeth a oedd yn cynnwys 35 o grwpiau ffocws gyda ffoaduriaid yng Nghymru, amlygwyd cyfres o faterion mewn cysylltiad â thai, gan gynnwys cael gafael ar wasanaethau cyfieithu, gwybodaeth, llety dros dro a pharhaus o ansawdd isel, ac arferion sy'n atal integreiddio (Threadgold a Clifford, 2005). Mewn prosiect cwmpasu arall am ffoaduriaid a thai, daeth amrywiaeth debyg o faterion i'r amlwg yn ogystal ag amrywiaeth o arferion da ac arloesol mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau (Robinson, 2006).

Mae ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010) hefyd wedi amlygu materion yn ymwneud ag ansawdd y tai sy'n cael eu rhoi i geiswyr lloches a ffoaduriaid, yn ogystal ag enghreifftiau o arferion gwael ymhlith darparwyr tai a staff rheng flaen sy'n peri i bobl deimlo'n agored i niwed ac yn ansicr yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r **sefyllfa o ran rhoi tai i geiswyr lloches sydd wedi methu â chael statws ffoaduriaid** ond sydd naill ai'n gwrthod neu'n methu â dychwelyd i'w gwledydd genedigol, yn arbennig o ansicr. Gallant orfod cysgu ar y stryd neu fynd o 'un sofffa i'r nesaf'. Gallant hefyd fod mewn perthynas ddifrifol a/neu'n cael eu gorfodi i gael rhyw gyda rhywun er mwyn cael to uwch eu pen (Crawley et al. 2011).

Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r prosiect Tai i Ffoaduriaid a gynhelir gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru sy'n cynnig cyngor ar dai a chymorth i bob ffoadur sy'n cael caniatâd i aros yn y wlad.

Cyfeiriadau a rhagor o wybodaeth

Grŵp Trawsbleidiol Seneddol am Fewnfudo (AAPG) (2013) *'Immigration to the regions: how do we ensure that no-one is left behind?'*, *Papur Hysbysu 10 AAPG*, www.appgmigration.org.uk/sites/default/files/APPG_Migration_Census-2011_Briefing-Jan-2013.pdf

Crawley, H., Hemmings, J. a Price, N. (2011) *Coping with Destitution: Survival and Livelihood Strategies of Refused Asylum seekers Living in the UK*, Rhydychen: Oxfam
www.oxfam.org.uk/resources/policy/right_heard/downloads/rr-coping-with-destitution-survival-strategies-uk-040211-en.pdf

Crawley, H. a Crimes, T. (2009) *Refugees Living in Wales: A Survey of Skills, Experiences and Barriers to Inclusion*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, www.swan.ac.uk/media/media,41835,en.pdf

Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2009) *Managing the Impacts of migration: Improvements and Innovations*, Llundain
<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20120919132719/www.communities.gov.uk/documents/communities/pdf/1179350.pdf>

Yr Arsyllfa Fewnfudo (2013) *Migrants and Housing in the UK: Experiences and Impacts*, www.migrationobservatory.ox.ac.uk/sites/files/migobs/Briefing%20-%20Migrants%20and%20Housing%20in%20the%20UK_0.pdf

Perry, J. (2012) *Housing and Migration: A UK Guide to Issues and Solutions*, Llundain: HACT, Sefydliad Joseph Rowntree a'r Sefydliad Mewnfudo Metropolitan, www.cih.co.uk/resources/PDF/Policy%20free%20download%20pdfs/housingandMigration2012.pdf

Robinson, D, Reeve, K, a Casey, K, *The housing pathways of new migrants*, Sefydliad Joseph Rowntree, 2007. www.jrf.org.uk/publications/housing-pathways-new-immigrants

Robinson, V. (2006) *Mapping the Field: Refugee Housing in Wales*, HACT a Chyngor Ffiaduriaid Cymru, www.wsmf.org.uk/documents/wsmf/Refugees/Mapping%20the%20field%20Refugee%20housing%20in%20Wales.pdf

Rutter, J. a Latorre, M. (2009) *Social Housing Allocation and Immigrant Communities* Llundain: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/4_social_housing_allocation_and_immigrant_communities.pdf

Shelter Cymru (2010) *Byw yng Nghymru: Profiadau o Dai a Digartrefedd Gweithwyr sydd wedi mewnfudo o Ganol a Dwyrain Ewrop*
www.sheltercymru.org.uk/images/pdf/MigrantWorkersReport.pdf

Shelter (2008) *Immigration and Housing: Shelter Factsheet*, Llundain
https://england.shelter.org.uk/_data/assets/pdf_file/0009/132030/Factsheet_Immigration_and_housing.pdf

Spencer, S, Ruhs, M, Anderson, B, a Rogaly, B (2007) *Migrants' lives beyond the workplace, the experiences of Central and Eastern Europeans in the UK*, Sefydliad Joseph Rowntree (JRF)
www.compas.ox.ac.uk/fileadmin/files/Publications/Reports/2007-05-EEMigrants.pdf

Threadgold, T et al. (2008) *Immigration and Inclusion in South Wales*, Sefydliad Joseph Rowntree
www.jrf.org.uk/system/files/2290-wales-migration-cohesion.pdf

Llywodraeth Cymru (2012) *Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywydau a Chymunedau Gwell*, Caerdydd
<http://wales.gov.uk/docs/desh/consultation/120521whitepaperen.pdf>

Llywodraeth Cymru (2011) *Y Rhaglen Lywodraethu: Cydraddoldeb*
<http://wales.gov.uk/docs/strategies/110929chap8en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2010a) *Gwella Bywydau a Chymunedau: Cartrefi yng Nghymru*, Caerdydd
<http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/100421housingstrategyen.pdf>

Llywodraeth Cymru (2010b) *Mesur Effaith Gymdeithasol Mewnfudo ar Lefel Awdurdod Lleol*, Caerdydd
<http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/research/100610migrationreporten.pdf>

Llywodraeth Cymru (2009) *Effeithiau Mewnfudo Diweddar ar Ddyraniadau Tai Awdurdodau Lleol a*

Chamau o dan Ddeddfwriaeth Digartrefedd, Caerdydd
<http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/research/newideasfund/complete/3895860/?lang=en>

Whitehead, C., Edge, A., Gordon, I., Scanlon, K. a Travers, T. (2011) *The Impact of Migration on Access to Housing and the Housing Market*: Llundain: Ysgol Economeg Llundain (LSE)
www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/257238/lse-housing.pdf

Ynglŷn â'r gyfres o bapurau hysbysu

Dyma un o gyfres o bapurau gan yr Athro Heaven Crawley, Canolfan Ymchwil i Bolisiau Mewnfudo ym Mhrifysgol Abertawe, i wella gwybodaeth am faterion mewnfudo yng Nghymru a dealltwriaeth ohonynt. Mae'r papurau'n gosod y dystiolaeth am fewnfudo i Gymru yng nghyd-destun materion a themâu allweddol sy'n berthnasol i'r cyhoedd ac o ran polisïau. Maent hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bwy yw'r mewnfudwyr, y ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru a'u profiadau.

Gallwch lawrlwytho'r papurau yn
www.wmp.org.uk

Gallwch lawrlwytho data ac adnoddau ychwanegol o Borthol Mewnfudo Cymru
<http://wmp.infobasecymru.net/IAS>

Mae Partneriaeth Mewnfudo Cymru yn fodlon i chi ailgynhyrchu'r papur hwn at ddibenion ailgyflwyno, addysg, hyfforddiant ac ymgyrchu ar yr amod na chodir tâl am ddefnyddio'r deunydd a bod ffynhonnell y wybodaeth yn cael ei chydnabod.